Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda ar **Ddydd Mawrth, 7 Rhagfyr 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unryw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 17 Rhagfyr 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Keith Evans, Lynford Thomas, Wyn Thomas ac Ivor Williams

(10.00 - 11.35 am)

**124 Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.

**125 Materion Personol**

(i) Gyda thristwch mawr, y nodwyd marwolaeth sydyn Daniel Davies, mab y Cynghorydd Gareth Davies a Mrs Julie Davies a brawd i Angharad. Cydymdeimlwd yn ddiffuant â'r teulu.
Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

(ii) Llongyfarchwyd y Parchedig Andy John, Esgob Bangor, ar ei benodiad yn Archesgob Cymru.

(iii) Dethlir Diwrnod Hawliau'r Gymraeg heddiw ac anogodd yr Arweinydd bawb i gyfathrefu a defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn Gymraet yn ogystal ag yn Saesneg.

(iv) Llongyfarchwyd y Cynghorydd Euros Davies ar ei lwyddiant yn arddangos pâr o ŵyn Llanwenog yn Ffair Aeaf ddiweddar Cymdeithas amaethyddol Frenhinol Cymru. Llongyfarchwyd holl aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion a gymerodd ran yn y dygwyddiad yn ogystal.

**126 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu.

**127 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Cafwyd diweddariad gan yr Arweinydd ar sefyllfa Covid-19. Adroddwyd 35 achos positif ychwanegol heddiw gan greu cyfanswm o 6670 ers dechrau'r pandemig. Mae hyn yn cyfateb i 251.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghereidigion, gyda 183 o achosion positif wedi'u hadrodd yn ystod y saith niwrnod diwethaf. Mae'r ffigyrau fesul 100,000 o'r boblogaeth ar 2 Rhagfyr 2021 fel a ganlyn:

Aberteifi ac Aberporth 247.8;
Beulah, Troedyraur a Llandysul 351.8;

Cei Newydd a Phenybryn 136.9;
Llambed a Llanfihangel Ystrad 291.2;
Aberaeron a Llanrhystud 211.4;
Rheidol, Ystwyth a Caron 450.4;
De Aberystwyth 313.8;
Gogledd Aberystwyth 147.1;
Borth a Bontgoch 94.1.

Mae'n ymddangos bod y ffigyrau'n dringo eto fel yn y mwyafrif o ardaleodd Cymru gyda'r mwyafrif o ahcosion yn bennaf ymhlith pobl ifan 12 – 19 oed. Oherwydd nifer y staff a'r disgybion sy'n derbyn canlyniadau positif, mae Ysgol Dyffryn Cledlyn wedi dychwelyd i ddarparu gwersi ar-lein yr wythnos hon. Mae ysgolion Bro Teifi a Bro Pedr hefyd yn cael probleay staffio.

Mae gwasanaethau'r Cyngor yn parhau fel arfer. Maer' system Clicio a Chasglu yn parhau yn llyfrgelloedd y sir. Bydd y Canolfannau Hamdden yn Aberteifi ac Aberystwyth yn ailagor cyn gynted ag y bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau.

Nododd yr Arweinydd nad oes unrhyw gynlluniau yn genedlaethol ar hyn o bryd i gau ysgolion cyn diwedd y tymor.

**128 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 yn gywir.
Materion yn codi: Roedd y Cynghorydd Keith Evans yn dymuno nodi yn y cofnodion ei fod wedi ymddiheuro am fethu â mynychu'r cyfarfod.

**129 Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd: Llewod Llambed yn dweud "achub ein neuadd chwaraeon"**

Llewod Llanbed yn dweud 'achub ein neuadd chwaraeon'

Nodwyd bod y ddeiseb uchod wedi dod i law ac yr ymdrinnir â hi yn unol â chanllawiau'r Protocol Deisebau

**130 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**131 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**

Gweler penderfyniadau 135.

**132 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ar Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol**

(i) Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr aroddiad yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr ysgolion perthnasol.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***

*Er mwyn enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol*.

133 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar Sylfaen Treth y Cyngor a'r Dyddiadau ar gyfer Talu'r Praeseptau.**
(i) Cymeradwyo Sylfaen Treth y Cyngor fel y nodir yn atodiadau'r adroddiad; a
(ii) Chymeradwyo rhaglen arfaethedig y rhandaliadau felyr argymhellir o dan eitem 4 yn yr adroddiad.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*Gofyniad cyfreithiol.*

134 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar Y Rhaglen Gyfalaf Ddiweddaraf ar gyfer 2021/22**
(i) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiweddaraf o £26.484m ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.
(ii) Nodi'r perfformiad yn yr Adroddiad Monitro Cyfalaf fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*Er mwyn diweddaru Rhaglen Gyfalaf 2021/22.*

135 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfnidiaeth ar Polisïau Enghreifftiol Adnoddau Dynol ar gyfer Ysgolion: Polisi a Gweithdrefn Urddas yn y Gwaith a Rheoli Absenoldeb Salwch yn y Gwaith ac adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
(i) Cymeradwyo Polisi a Gweithdrefn Enghreifftiol Urddas yn y Gwaith i Ysgolion a bod Cyrff Llywodraethu yn eu mabwysiadu yn ysgolion Ceredigion
(ii) Cymeradwyo Polisi a Gweithdrefn Enghreifftiol Rheoli Absenoldeb Salwch yn y Gwaith i Ysgolion a bod Cyrff Llywodraethu yn eu mabwysiadu yn ysgolion Ceredigion.
(iii) Nodi'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*(i) Darparu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhyrchiol heb unrhyw aflonyddu, bwlio ac erledigaeth ar draws ysgolion yng Ngheredigion.*
*(ii) Darparu cefnogaeth a hyrwyddo gweithlu iach sy'n hanfodol i lwyddiant ein disgyblion.*

136 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfnidiaeth ar Polisïau Adnoddau Dynol: polisïau (1) Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor a (2) Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbydau Preifat (Fflyd Llwyd) ac adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
(i) Cytunwyd i ohirio'r eitem a'i gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried ymhellach, a'i gyflwyno gyfarfod Cabinet yn y dyfodol.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*I ddarparu amser i ystyried ymhellach.*

**137** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu ar Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru**

(i) Rhoi awdurdod dirprwyedig i’r Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd) gychwyn deialog o fewn y priod awdurdodau (Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) i ddatblygu cynigion ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru.
(ii) Awdurdodi’r swyddogion i :
(a) sefydlu'r ffrydiau gwaith sydd eu hangen i symud y gwaith o sefydlu a datblygu Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru yn ei flaen, a
(b) gweithio gyda Chyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ddatblygu cynigion ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*(i) Galluogi i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael ei sefydlu yn rhanbarth Canolbarth Cymru fel sy'n ofynnol yn Rhan 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*
*(ii) Sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth*
*(iii) Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith.*

**138** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar Darpariaeth Breswyl er mwyn Cefnogi a Gofalu am Blant a Phobl Ifanc yng Ngheredigion**

(i) Cymeradwyo sefydlu cartref grwp bychan mewn lleoliad yng nghanol y sir er mwyn darparu hafan ddiogel i blant Ceredigion yng Ngheredigion ac ystyried strategaeth i ddatblygu opsiynau tebyg pellach yng ngogledd ac yn ne’r sir.
(ii) Cymeradwyo i swyddogion gyflwyno ceisiadau am gyllid i’r cynllun llety diogel rhanbarthol a ariennir gan arian cyfalaf a refeniw ICF.
(iii) Cymeradwyo defnyddio cronfeydd corfforaethol y Cyngor er mwyn sefydlu a chynnal y ddarpariaeth arfaethedig.
(iv) Y bydd gwaith ymgynghori pellach drwy’r broses gynllunio.
(v) Nodi, hyd nes y ceir canlyniad y cynnig uchod, y bydd y trefniadau gofal dros dro amgen angenrheidiol a wneir ar sail argyfwng ar gyfer unrhyw blentyn yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gymryd camau i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol a deddfwriaethol.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth addas i blant a theuluoedd yng Ngheredigion*

**139** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llangwyryfon) (Cyfyngiad ar Led) 2021**

(i) Cymeradwyo hysbysebu'r bwriad i aelodau'r cyhoedd, ac os na cheir dim gwrthwynebiadau, wneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol a chyhoeddi Hysbysiad Gwneud dilynol yn y wasg i'r perwyl hwn.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***
*Atal difrod i briffordd gyhoeddus, pont ac eiddo preifat.*

**140** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar Cyllideb Refeniw Reoladwy - 2021/22**

(i) Nodwyd yr adroddiad.

**141** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar Adolygiad canol blwyddyn o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22**

(i) Nodwyd yr adroddiad.

**142** **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 1 2021-22**

(i) Cabinet noted the report.

**143** **Atodiad i adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar Darpariaeth Breswyl er mwyn Cefnogi a Gofalu am Blant a Phobl Ifanc yng Ngheredigion**

Nid yw'r adroddiad ar eitem 143 ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 13 a 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, yn unol â'r Ddeddf ac ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

**Penderfynwyd**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn dilyn yr eitem nesaf, sef 144.

Nododd Cabinet yr adroddiad parthed penderfyniad 138.

**144** **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

i. Nododd y Cynghorydd Catrin Miles, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cefnogaeth ac Ymyrraeth fod y tymor ysgol cyfredol yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2021 ac y bydd ysgolion yn ailagor ar 5 Ionawr 2022.

ii. Cynghorodd yr Arweinydd bawb i gymryd gofal yn y storm 'Barra' sydd ar ddod. Dymunodd yn dda i holl staff Priffyrdd yn ystod yr ychydig ddyddiau nesaf a diolchodd iddynt am eu gwaith.

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________